Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Bute Energy

14 Awst 2024

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

> *I would like to request a freedom of information request regarding details of an event being held this evening (09.07.24) at The Senedd, it was firstly as an event called "Bute energy reception" an evening to celebrate working in partnership with communities to deliver green energy, although i believe the public are not invited, within 24 hours it has now been renamed "Skilling up the workforce," still run by Bute energy.*
>
> *Who has organised this event?*
>
> *Who has been invited?*
>
> *What is on the agenda?*
>
> *How much is Bute paying The Senedd?*

Gweler ein hymateb isod.

1. *Who has organised this event?*

Bute Energy.

2. *Who has been invited?*

Rhaid i ddigwyddiadau fod yn agored i bob un o'r 60 Aelod o'r Senedd, fel y nodir yn ein **Telerau ac Amodau.** Bute Energy oedd yn gyfrifol am wahodd y gwesteion, ac felly nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi ynghylch rhestr y gwahoddedigion.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | We welcome correspondence in both Welsh and English.**

*3. What is on the agenda?*

Dyma’r agenda a gyflwynwyd -

1800 – 1845
Cyrraedd, rhwydweithio, lluniaeth

1845 – 1850

Croeso, Cyflwyniadau i John Griffiths AS

1850 – 1900

Y cyd-destun – John Griffiths AS

1900 – 1910

Cyflwyniad i Bute Energy – Beth a Pham

1910 – 1920

Buddsoddiad Cymunedol Bute Energy gyda chyflwyniad i’r fideo

1920 – 1925

Fideo Bute Energy

1925 – 1930

Negeseuon allweddol y strategaeth a diweddglo

1930 – 2000

Rhwydweithio a lluniaeth

*4. How much is Bute paying The Senedd?*

Nid yw’r Senedd yn codi tâl am ddigwyddiadau a gynhelir yn ystod yr wythnos fusnes (fel y digwyddiad hwn).

Yn gywir

**Joanna Grenfell**
**Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Dirprwy Swyddog Diogelu Data**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF